Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Llangadog

**Llangadog**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA19 9HP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llangadog

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llangadog |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 92 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 85 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 15% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 14% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 42% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.8% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 22/02/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/11/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 27/03/2023 |
| Mae nifer o ddisgybion wedi symud i'r ardal o Loegr a thu hwnt yn ddiweddar, sydd wedi cael effaith ar naws Gymreig yr ysgol. O ganlyniad, mae'r staff wedi addasu'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad priodol i addysg yn yr ysgol. | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar sy’n rhoi pwyslais cadarn ar ddiogelu disgyblion a hyrwyddo’u lles yn effeithiol. Rhoddir sylw teilwng i barchu amrywiaeth o fewn ei chymuned. Adlewyrchir hyn yn y modd gofalgar a chroesawgar mae disgyblion a staff yn gwerthfawrogi cyfraniad pob un tuag at waith yr ysgol a’r ffordd maent yn croesawu disgyblion newydd i’w plith. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion sy’n cychwyn yn yr ysgol yn ymgartrefu’n gyflym ac yn dod yn rhan gyflawn o’i chymuned. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn hapus ac yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod y cânt rannu unrhyw bryder â staff ac y byddai’r ymateb yn un gofalgar a phrydlon. Mae’r berthynas sy’n bodoli rhwng y pennaeth â rhieni yn gadarnhaol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais ac yn barod i helpu ei gilydd. Mae llawer yn dyfalbarhau’n ddiwyd wrth wynebu anawsterau yn eu gwaith ac yn gwerthfawrogi’r cyfleoedd amrywiol a gânt i gyfrannu at gynnwys eu tasgau ac i ddylanwadu’n gyffredinol at elfennau eraill o waith yr ysgol.

Mae’r staff yn dechrau ystyried gwahanol ffyrdd o gynllunio i sicrhau bod disgyblion yn caffael a chymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gyson ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid yw eto wedi sefydlu ddigon i gael effaith gadarnhaol ar safonau a chynnydd. Er bod y gwersi fel arfer yn ddiddorol a phriodol, nid yw’r addysgu bob amser yn effeithiol. Nid yw disgwyliadau'r holl athrawon ychwaith yn gyson uchel o ran herio’r ystod lawn o ddisgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Lle mae’r addysgu ar ei orau, mae’r gweithgareddau’n cynnig profiadau cyfoethog, sy’n meithrin annibyniaeth y disgyblion yn llwyddiannus ac yn eu hannog i wneud cynnydd sydd o leiaf yn dda.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh o’u mannau cychwyn, ac mae’r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda. Mae llawer yn datblygu medrau creadigol da wrth chwarae offerynnau cerddorol fel y ffliwt a drymiau ac wrth gystadlu mewn cystadlaethau lleol a chenedlaethol.

Yn dilyn cyfnod ansefydlog o ran arweinyddiaeth, mae’r pennaeth presennol wedi cyflwyno nifer o weithdrefnau strategol hanfodol i geisio sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol a bod disgyblion yn gwneud cynnydd priodol. Ond, gan eu bod yn newydd, nid yw eto’n bosibl mesur eu gwir effaith.

## Argymhellion

A1 Sefydlogi'r arweinyddiath a sicrhau bod y gweithdrefnau strategol newydd yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau

A2 Sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu yn gyson uchel ar draws yr ysgol er mwyn galluogi pob disgybl i gyflawni hyd eithaf ei allu

A3 Sicrhau bod y tîm addysgu yn cynnig cyfleoedd rheolaidd a chydlynus i ddisgyblion gaffael a chymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a ThGCh mewn cyd-destunau ystyrlon ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau o'u mannau cychwyn, ac mae'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn arbennig ym maes lles, yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda.

Mae medrau llafaredd llawer o'r disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Maent yn ymateb yn dda i strategaethau penodol i ymestyn geirfa a phatrymau iaith. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ac yn dilyn cyfarwyddiadau oedolion yn llwyddiannus. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'r hyder i gyfarch a thrafod gydag oedolion a chyfoedion ac yn awyddus i esbonio, er enghraifft, sut i wneud byns croes poeth.

Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth drafod effaith y daeargryn diweddar yn Nhwrci a Syria. Mae mwyafrif o'r hwyrddyfodiaid yn gwneud cynnydd priodol o ran y Gymraeg.

Mae mwyafrif y disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau darllen cynnar yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio strategaethau ffoneg yn gynyddol hyderus, er enghraifft i ddarllen cyfarwyddiadau rysáit. Mae mwyafrif o'r disgyblion hŷn yn trafod cynnwys eu llyfrau yn aeddfed. Maent yn defnyddio strategaethau priodol i'w helpu i ddarllen geiriau anghyfarwydd, mwy heriol. Fodd bynnag, mae medrau darllen lleiafrif yn is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed a'u gallu, yn arbennig yn y Gymraeg, a chyfyng yw eu gwybodaeth am nodweddion llyfrau ac awduron.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o'r disgyblion yn datblygu'n briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r mwyafrif yn dangos dealltwriaeth briodol o ddilyniant drwy fapio stori ac ysgrifennu brawddegau syml gan ddefnyddio berfau ac atalnodi. Maent yn datblygu geirfa a phatrymau brawddegau syml ac yn ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu hyn ymhellach ac yn ysgrifennu'n addas at amrywiol bwrpasau gan amlygu dealltwriaeth briodol o bwrpas, ffurf a chynulleidfa. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o amrywiol elfennau gramadegol ac yn eu cymhwyso'n gynyddol gywir i'w tasgau ysgrifennu. Maent yn arddangos dealltwriaeth o bwysigrwydd paragraffu i strwythuro eu darnau creadigol, fel llythyr i ddiolch i'r rhieni am godi arian i Apêl Syria a Thwrci o ganlyniad i'w hymchwil flaenorol i'r sefyllfa yno. Mae llawer ar draws yr ysgol yn cyflwyno'u gwaith mewn diwyg graenus ac yn datblygu llawysgrifen daclus.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau mathemategol. Yn y dosbarth ieuengaf, mae'r mwyafrif yn cyfri'n briodol ac yn trin rhifau'n gynyddol hyderus. Mae llawer yn cyfri wyau mewn basgedi, ac yn eu didoli yn ôl lliw. Maent yn mynd i'r siop i brynu wyau ac yn deall bod rhai o wahanol liw yn costio symiau gwahanol. Mae ychydig o ddisgyblion hŷn y dosbarth derbyn yn dechrau deall bod angen gwahanol ddarnau arian i dalu am yr wyau yn y siop. Ym Mlwyddyn 1 a 2, mae'r rhan fwyaf yn ffurfio rhifau'n gywir, ac yn defnyddio gwahanol strategaethau yn lled hyderus i adio a thynnu, mewn amrywiol gyd-destunau. Er enghraifft, maent

yn dechrau deall gwerth darnau arian, gan gyfrifo'r newid sydd ei angen wrth iddynt siopa.

Yn nosbarthiadau uwch yr ysgol, mae llawer yn defnyddio amrywiol ddulliau mathemategol yn hyderus i ddatrys problemau go iawn. Er enghraifft, o dan y thema gyfredol 'Sbïo drwy'r ffenest', maent yn cynnal arolwg trafnidiaeth ar yr heol y tu allan i'r ysgol. Mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn cyfrifo sawl cerbyd o wahanol liw sy'n mynd heibio bob awr. Maent yn arddangos eu canlyniadau ar ffurf graff bloc digidol ac yn ateb cwestiynau penodol i gymharu'r nifer ar wahanol adegau o'r dydd yn gywir. Mae hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach ym Mlynyddoedd 5 a 6 lle mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio teclyn i fesur cyflymder ceir i weld sawl un sydd wedi arafu, neu wedi mynd yn gynt. Maent yn cyfrifo amrediad, canolrif, cymedr a modd y data a gasglwyd yn lled hyderus, ac yn arddangos y canlyniadau'n briodol ar ffurf graff.

Er bod enghreifftiau da fel y rhai uchod yn bodoli, lle mae'r disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm, cyfyng yw'r cyfleoedd iddynt wneud hynny'n rheolaidd.

Mae medrau digidol llawer o'r disgyblion yn datblygu'n briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio llechen electronig yn effeithiol i greu graffiau bloc, er enghraifft i ddangos y gwahanol fathau o dai mae'r disgyblion yn byw ynddynt. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn ymchwilio'n hyderus am wybodaeth o wahanol ffynonellau ac yn defnyddio pecyn digidol i greu seiniau ac effeithiau cerddorol.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus mewn nifer o gyfryngau o oed cynnar. Mae'r disgyblion ieuengaf yn gweithio'n greadigol gydag amrywiaeth o ddeunyddiau i greu delweddau gan ddefnyddio brigau coed, cerrig a mwswgl, er enghraifft. Mae'r rhai hŷn yn tynnu amrywiaeth o luniau a chreu modelau o gestyll ac adeiladau'r pentref. Mae llawer yn chwarae offerynnau cerddorol fel y ffliwt a'r drymiau i safon uchel, ac yn cystadlu'n llwyddiannus mewn cystadlaethau lleol a chenedlaethol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datgan eu bod yn hapus a diogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod y cânt rannu unrhyw bryder â staff ac y byddai'r ymateb yn un gofalgar a phrydlon. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar lein.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn gwrtais ac yn barod i helpu ei gilydd mewn gwersi ac ar yr iard. Mae llawer yn dyfalbarhau'n ddiwyd wrth wynebu anawsterau yn eu gwaith. Er enghraifft, maent yn defnyddio dull penodol i ganfod cymorth gan gyfoedion neu adnoddau eraill cyn gofyn i oedolyn. O ganlyniad, mae awyrgylch gefnogol a chynhaliol yn bodoli ar draws yr ysgol. Mae llawer yn canolbwyntio'n dda ar eu gweithgareddau, heb adael i ddigwyddiadau eraill amharu ar eu sylw. Maent yn barod i ddysgu ac yn dangos dycnwch wrth ymgymryd â heriau newydd fel creu bathodyn i roi ar fedalau Eisteddfod yr Urdd a gynhelir yn lleol eleni.

Ymateba'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarnhaol i'r cyfleoedd i a gânt i gyfrannu at gynnwys eu themâu. Maent yn meddwl am gwestiynau perthnasol i ymchwilio iddynt ac yn nodi'r agweddau yr hoffent ddysgu mwy amdanynt. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn fodlon bod y tîm addysgu, sef yr athrawon a'r cymorthyddion dysgu, yn

ystyried eu syniadau ac yn barod i'w cynnwys o fewn gweithgareddau perthnasol, lle bo’n briodol. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt berchnogaeth ar yr hyn maent yn ei ddysgu. Mae llawer yn ymateb yn addas i adborth gan athrawon ac i weithredu arno.

Mae aelodau'r cynghorau ysgol ac eco yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri ac yn cyfrannu'n bwrpasol at agweddau amrywiol o’u lles a’u dysgu. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod ystod eang a digonol o adnoddau chwarae ar gael i’w cyfoedion yn ystod amser egwyl.

Dealla’r rhan fwyaf o ddisgyblion bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a sut y gall ymgymryd â gweithgareddau ymarfer corff yn rheolaidd effeithio’n gadarnhaol ar eu hiechyd a’u lles. Maent yn dangos diddordeb a hyder yn ystod gwersi ymarferol a sesiynau allgyrsiol ac yn mwynhau'r cyfleoedd eang a gânt i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel marchogaeth, seiclo, pêl-droed a dawnsio.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae’r tîm addysgu’n  cyflwyno prif egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yn gynyddol lwyddiannus. Mae’n cynllunio’n bwrpasol ac yn dechrau addasu a threialu gwahanol ymagweddau a dulliau addysgu yn unol â’r angen. Mae’n anelu’n fwriadus at ddilyn trywydd y dysgwyr sy’n fodd o gynyddu eu perchnogaeth ar eu dysgu. Yn gyffredinol, mae’r ddarpariaeth yn ysgogi disgyblion i ymrwymo’n gydwybodol i’w tasgau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

Mae gan y rhan fwyaf o aelodau’r tîm addysgu adnabyddiaeth dda o anghenion y disgyblion. Ar y cyfan, maent yn ystyried yr anghenion hyn yn briodol wrth gynllunio gweithgareddau ar eu cyfer. Mae’r rhain yn cynnwys ymyraethau i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, a’u lles emosiynol. Mae’r tîm addysgu’n  dechrau ystyried gwahanol ffyrdd o gryfhau’r cynllunio yn gydlynus i sicrhau bod disgyblion yn caffael a chymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn gyson ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid yw eto wedi sefydlu’n ddigonol er mwyn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chynnydd disgyblion.

Mae bron pob aelod o staff yn modelu iaith safonol yn fwriadus gan roi pwyslais cyson ar ymestyn medrau llafar y disgyblion. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, mae’r ysgol wedi mabwysiadu dull penodol i fodelu patrymau a geirfa yn y Gymraeg sy’n dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau cyfathrebu’r disgyblion ar draws yr ysgol. Mae’r tîm addysgu’n  defnyddio amrywiol dechnegau holi yn gelfydd i ymestyn ymatebion a dealltwriaeth y disgyblion ac i adnabod lefel eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth. Maent fel arfer yn gymorth defnyddiol i lywio’r camau nesaf ar gyfer y disgyblion, er nad ydynt bob tro’n  arwain at dasgau sy’n ddigon heriol i ymestyn pob un ohonynt, yn arbennig y rhai uwch eu gallu.

Mae adborth yr athrawon ar y cyfan yn addas ac fel arfer yn gymorth i ddisgyblion wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a’r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Er hyn, nid yw effeithiolrwydd yr addysgu na disgwyliadau'r holl athrawon yn gyson uchel o ran herio’r ystod lawn o ddisgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mewn tua hanner y dosbarthiadau, lle mae’r arfer hon ar ei gorau, mae’r gweithgareddau’n  cynnig profiadau cyfoethog, sy’n meithrin annibyniaeth y dysgwyr yn llwyddiannus ac yn eu hannog i wneud cynnydd sydd o leiaf yn dda.

Mae’r tîm addysgu’nn manteisio’n dda ar yr amgylchedd newydd ac atyniadol sydd ganddynt ers adnewyddu’r adeilad a’r safle. Er enghraifft, ym mlynyddoedd cynnar yr

ysgol, mae'r tîm addysgu'n darparu ystod o weithgareddau ysgogol a phwrpasol i ddisgyblion yn yr ardal allanol, fel astudio iâr fyw, ac yn eu hannog i greu ffeil o ffeithiau ar ei nodweddion. Gwneir defnydd pwrpasol o'r ardd i rannu storïau a chynnal digwyddiadau fel gwasanaethau ysgol a'r Ffair Nadolig.

Mae'r tîm addysgu'n adnabod cyfleoedd priodol i hyrwyddo adnabyddiaeth a gwerthfawrogiad y disgyblion o'u hardal leol drwy, er enghraifft, drefnu ymweliadau iddynt ag afonydd lleol, sy'n sail i enwau'r pedwar dosbarth. Mae hyn yn hybu eu diddordeb a'u balchder yn eu hardal leol. Yn yr un modd, maent yn hyrwyddo ymdeimlad y disgyblion o'u hunaniaeth Gymreig. Maent yn gwneud hyn drwy amrywiol weithgareddau, sy'n cynnwys cymryd rhan mewn prosiect yn seiliedig ar hanesion lleol a drefnir gan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, sydd i'w chynnal yn lleol eleni. Maent yn hyrwyddo lle'r disgyblion yn llwyddiannus yng nghyd-destun y byd ehangach. Er enghraifft, maent wedi sefydlu cyswllt dros y we gydag ysgol yn Kenya ac yn rhoi cyfle i ddisgyblion astudio a thrafod effaith rhyfel Wcráin ar fywyd ei phobl.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhaliol a hapus sy'n rhoi pwyslais clir ar ddiogelu disgyblion a hyrwyddo'u lles yn effeithiol. Anogir y disgyblion i werthfawrogi amrywiaeth a pharchu cyfraniadau pob un at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae parchu amrywiaeth yn cael sylw teilwng o fewn ei chymuned gynhwysol ac adlewyrchir hyn yn y modd gofalgar a chroesawgar mae disgyblion a staff yn ei ddangos tuag at hwyr-ddyfodiaid i'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n gyflym ac yn dod yn rhan gyflawn o gymuned yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Yn yr un modd, mae ei gweithdrefnau i sicrhau presenoldeb cyson disgyblion yn gadarn.

Mae'r tîm addysgu'n darparu cyfleoedd rheolaidd a llwyddiannus i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a datblygu eu medrau arwain drwy gyfrwng y gwahanol gynghorau disgyblion. Er enghraifft, maent wedi eu hannog i gynnig mewnbwn i gynnwys polisi ymddygiad yr ysgol, i drefnu cyfleoedd i ddisgyblion eraill ailgylchu amrywiol ddefnyddiau ac i wneud defnydd effeithiol o'r ardd yn dymhorol.

Mae'r ysgol yn hybu datblygiad creadigol y disgyblion yn effeithiol yn enwedig drwy gyfrwng perfformiadau cerddorol o fewn yr ysgol, y gymuned ac eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at godi eu hyder a chryfhau eu hadnabyddiaeth o'u hetifeddiaeth a'u diwylliant. Fe'u hanogir i ymgymryd â gweithgareddau ym maes celf a dylunio, hefyd. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 1 a 2, cânt eu hysbrydoli i greu gwisg i gymeriad o stori Siôn Ddiog a'r Dywysoges, a chreu model tri dimensiwn o gastell iddi. Mae'r profiadau dychmygus hyn yn codi hyder llawer o'r disgyblion yn dda ac yn eu hannog i gydweithio'n effeithiol fel tîm.

Mae'r staff yn meithrin perthynas gynhyrchiol â rhieni. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi hyn ac yn mwynhau chwarae eu rhan ym mywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn codi arian i brynu adnoddau i'w defnyddio yn yr ardal allanol neu gyfarpar digidol i'r disgyblion ddefnyddio yn eu gwersi. Mae'r cyfathrebu sy'n bodoli rhwng yr ysgol â'r rhieni wedi cryfhau'n sylweddol ers i'r ysgol gyflwyno'r Bwletin Wythnosol a'r ffurf electronig newydd.

Mae gan yr ysgol amrediad da o weithgareddau i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r tîm

addysgu'n darparu cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a'r diwylliant Cymreig yn effeithiol. Mae'r sesiynau addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd hyfryd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau torfol ac i gyfrannu'n fwriadus at ddatblygu gwerthoedd cadarn ac archwilio eu credoau ysbrydol a moesol. Mae'r cyfleoedd a ddarperir i ddisgyblion gymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol lleol fel Sul y Cofio yn eu helpu i ddod yn ddinasyddion cydwybodol a meddylgar. Caiff hyn ei atgyfnerthu, er enghraifft, drwy eu hymroddiad i godi arian tuag at elusennau fel cymorth i bobol sy'n dioddef yn sgil y trychinebau yn Nhwrci a Syria. Mae'r gweithgareddau sydd ynghlwm â gardd yr ysgol yn cynnig cyfleoedd arbennig i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o faterion cynaliadwy a phwysigrwydd bwyta'n iach.

Mae'r pennaeth wedi mireinio a thynhau'r drefn o adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r ysgol bellach yn cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau cefnogi'r awdurdod lleol i ehangu'r ddarpariaeth, yn unol â'r angen. Mae'r holl staff bellach yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn y maes hwn, ac yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i ddiwallu anghenion y disgyblion hyn. Mae gan yr ysgol bellach drefniadau cefnogol ac effeithiol i helpu disgyblion i adnabod a rheoli eu hemosiynau a'u teimladau personol. Er enghraifft, gwneir defnydd buddiol o'r Cwtsh, sef ystafell fach sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion penodol ymdawelu drwy gefnogaeth ofalgar aelod o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant arbenigol i gynnal y math hwn o gymorth a chefnogaeth.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth yr ysgol wedi bod yn ansefydlog iawn ers nifer o flynyddoedd. Ers ei phenodiad, ychydig dros flwyddyn yn ôl, mae'r pennaeth presennol wedi cyflwyno nifer o weithdrefnau strategol i wella'r ddarpariaeth a safonau ac mae arwyddion eu bod yn dechrau cael effaith gadarnhaol mewn nifer o feysydd pwysig. Er hyn, nid yw'r gweithdrefnau hyn eto wedi cael amser i sefydlogi'n llawn a bydd y pennaeth yn gadael yr ysgol ddiwedd tymor yr haf i ymgymryd â swydd arall.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r pennaeth wedi gweithredu'n ddiwyd i geisio gwireddu gweledigaeth yr ysgol. Mae honno'n seiliedig ar gydweithio er mwyn rhoi gwreiddiau cadarn i'r disgyblion sy'n eu paratoi ar gyfer dyfodol llwyddiannus. Mae arwyddair yr ysgol, sef 'Cyd-baratoi heddiw at ddyfodol yfory', yn crisialu hyn yn dda.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun, o'r staff a'r disgyblion. Mae'n modelu ac yn hybu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol uchel sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ysgol ac yn annog cydweithio effeithiol ymhlith y staff. Mae wedi cryfhau'r elfen o waith tîm yn briodol, ac mae'n hyrwyddo lles staff a disgyblion yn llwyddiannus. Mae'n rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod yr holl staff yn deall eu rolau addysgu a'u bod yn hyrwyddo diwylliant diogelu'r ysgol yn barhaus. Rheolir perfformiad yr athrawon yn briodol gan y pennaeth er mwyn gwella eu harfer a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â thanberfformio, yn ôl yr angen. Er hyn, mae'r arfer hon yn newydd ac mae'n rhy gynnar i weld ei effaith lawn ar y ddarpariaeth, safonau a chynnydd disgyblion.

Ers ei phenodiad, a chyda chefnogaeth swyddogion yr awdurdod lleol, mae'r pennaeth wedi mireinio a thynhau gweithdrefn hunanwerthuso'r ysgol. Mae'r weithdrefn ddiwygiedig yn drylwyr ac yn seiliedig ar gasglu a dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol o safonau a darpariaeth. Mae hyn yn cynnwys craffu ar waith

disgyblion, cynnal arsylwadau ffurfiol a theithiau dysgu, trafod yn anffurfiol a gwrando ar ddysgwyr. Mae'r holl staff addysgu yn rhan o'r gweithdrefnau hyn, ac mae'r ffocws yn glir ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a lles disgyblion. Mae'r pennaeth bellach yn defnyddio canfyddiadau'r weithdrefn hon i lunio blaenoriaethau a chamau perthnasol ar gyfer gwella. Mae wedi adnabod y cryfderau cyfredol ynghyd â'r meysydd pwysig sydd angen eu gwella yn gywir ac mae wedi sefydlu cynllun priodol i fynd i'r afael â nhw. Er bod arwyddion cynnar o welliant ar draws yr ysgol, mae'r gweithdrefnau hyn yn parhau'n newydd ac nid ydynt wedi cael amser i sefydlogi'n llawn.

Mae'r llywodraethwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol a deallus. Maent yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol, gan gynnwys y ffordd y maent yn rheoli cwynion ac apeliadau gan rieni. Trwy adroddiadau cynhwysfawr y pennaeth, maent yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gryfderau cyfredol yr ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella ac yn cyfrannu'n bwrpasol at bennu'r blaenoriaethau strategol. Cyn adeg y pandemig, roeddent yn chwarae rhan weithredol yn y gweithgareddau hunanwerthuso ond nid ydynt hyd yma wedi ailgydio'n llawn yn y gwaith hwnnw. Er hyn, maent yn darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her, ac yn dwyn y pennaeth a'r staff i gyfrif yn briodol ar ran y gymuned leol yn eu rôl fel 'cyfeillion beirniadol.' Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod y bwyd a'r diod a ddarperir yn cydymffurfio â deddfwriaeth a bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Rheolir adnoddau ariannol yr ysgol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn briodol.

Yn ddiweddar, crëwyd diwylliant ac ethos mwy cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Fe'u hanogir bellach i arbrofi a chanolbwyntio ar sicrhau gwelliannau o ran cynnydd a lles disgyblion. Mae'r gweithgareddau dysgu proffesiynol diweddar wedi cysylltu'n glir â'r blaenoriaethau gwella. Er enghraifft, maent wedi rhoi ffocws clir ar ddarparu hyfforddiant i'r staff ar ddulliau effeithiol i fynd i'r afael ag anawsterau ag ymddygiad, anghenion disgyblion bregus, a sut i addysgu'n effeithiol yn yr awyr agored.

Mae'r pennaeth wedi dechrau nodi arfer dda o fewn yr ysgol, gan sicrhau bod staff eraill yn elwa'n uniongyrchol ohoni. Mae hefyd wedi dechrau cydweithio ag ysgolion eraill i'r staff elwa o arferion effeithiol mewn mannau eraill. Mae'n monitro effaith dysgu proffesiynol ar effeithiolrwydd yr addysgu, ac ar gynnydd a lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol bolisi drws agored ac mae'r pennaeth yn anfon bwletin wythnosol i rieni i drosglwyddo negeseuon pwysig iddynt. Mae'r rhain yn gyfryngau llwyddiannus iddi feithrin perthynas gynhyrchiol â nhw, ac yn sicrhau bod ganddynt linellau cyfathrebu effeithiol i ganfod eu barn a chodi unrhyw faterion a all effeithio ar ddysgu a lles eu plentyn.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraetho trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/06/2023